

## LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

### Ffatri INA Needle and Bearings, Bynea, Llanelli (1966-1982)

Cyfwelai: VSW025 Mrs Beryl Evans

Dyddiad: 6: 02: 2014

Cyfwelydd: Catrin Stevens ar ran Archif Menywod Cymru

*There is an English summary at the end of the Welsh text*

(Ar brydiau mae Beryl yn defnyddio tafodiaith yr ‘ife’ – lle mae’n cyfeirio at bawb gan gynnwys hi ei hunan yn y trydydd person)

Cadarnhaodd Beryl ei henw a’i chyfeiriad a nododd mai Beryl Thomas oedd hi cyn priodi. Cafodd ei geni ar 21 Mawrth, 1927.

Cafodd ei geni yn y dre (Llanelli) ond pan oedd hi’n ddwy flwydd oed symudodd y teulu i’r cartref lle mae hi’n byw yn bresennol. Cafodd ei brawd ieuengaf ei eni yn nhŷ ei mam-gu ddau ddrws i ffwrdd. Cyn i’w mam briodi roedd hi’n gweithio yn y brewery (Felinfoel ar draws yr hewl) ac roedd ei thad-cu yn saddler yn y brewery hefyd. **‘Blynnydde nôl odd dim loris i gal, ceffyle a ceirts odd.’** **‘Gweitho yn y gwaith’** yr oedd ei mam yn y brewery, ac roedd ei thad yn colier yn Tymbll. Roedd ganddi ddau frawd – aeth Malcolm i weithio yn y gwaith steel yn Dafen a cafodd Harry (yr un ifancaf) ei grefft fel saer yn gweithio gyda Bonville Thomas.

Aeth hi i’r ysgol – lawr wrth gwt yr ardd (yn Felinfoel) ac yno yr aeth y tri ohonynt. Bellach mae’r ysgol hon wedi’i thynnu i lawr. Yn y Rank Fawr oedd hon ond bellach mae wedi symud i Ynyswen. O’r ysgol gynradd aeth i Strade a ‘cwpla yn ‘r ysgol wrth gwrs – fourteen.’ Ysgol gymysg oedd hon. Ar ôl gadael aeth i weithio yn y brewery. Ar y dechrau roedd hi i lawr yn y bottling stores ‘llanw poteli, a mashîns yn mynd â nhw ar y conveyer belt ... a dodi labels bach ar y poteli – mashîns yn neud rhain hefyd. Etho i o fy’nn y i’r pop stores wedi ‘ny i witho yn y part le odd y pop yn câl ‘i neud. On i’n enjoio fan’ny ...’

*Och chi’n falch i adel yr ysgol neu och chi’n teimlo licech chi fod wedi mynd mlân?*

Wel, pryd hynny och chi’n dod i’r oedran – na’r unig beth odd i gal – i fynd i witho. ...

*Och chi'n difaru bo chi ddim wedi mynd mlân o gwbwl?*

Na, nag on. ... Y pae cynta geso i (yn y *brewery*) odd saith a whech yr wthnos, ac amser cwples i *fifteen shillings* odd e.

Bu'n gweithio yno pan oedd hi'n 14 oed tan 21 (sef tua 1941 tan 1948). Felly roedd hi'n gweithio yno adeg yr Ail Ryfel Byd. Roedd e bron drws nesa i'w chartref a fu dim rhaid iddi fynd i'r *munitions* na dim byd fel yna – cred ei bod yn rhy ifanc i hynny. Priododd yn 1948 (?) a symud i Lwynhendy i fyw. Priododd Donald Evans a phan briodon nhw roedd e'n gweithio yng ngwaith *steel* Bynea. Gadawodd hwnnw i fynd i weithio yn Fisher and Ludlow (yn gwneud ceir) '**a tair blynedd odd e wedi gwitho fan'ny cyn bod e – accident yn digwydd iddo fe.**'

## 5.00

Doedd hi ddim yn gweithio ar ôl priodi '**on i'n meddwl, shwrne ma menyw yn priodi, bod y gŵr fod 'i chadw hi. A 'na fel odd hi blynydde nôl, odd ddim menywod yn mynd i witho – yn tŷ on nhw, nagefe?**

Cafodd un mab. Priododd pan oedd hi'n 21 (1949), ganwyd David ym mis Ionawr ac roedd hi'n 24 oed ym mis Mawrth. Arhosodd hi gartre i edrych ar ei ôl.

**Boddodd ei gŵr, Donald, yn afon Llwchwr (Loughor) wrth bysgota, ym mis Mehefin 1965. Dechreuodd hi yn y ffatri yn Bynea ym mis Ebrill 1966.** Erbyn hynny roedd ei mab yn 14 oed. **Doedd hi ddim eisiau mynd i weithio ond roedd yn rhaid iddi nawr.** 'Odd well 'da fi fod yn tŷ, achos on i wedi arfer bod yn tŷ' ond erbyn hyn roedd ei mab yn Strade, ac roedd hi'n hoffi bod yn y tŷ i'w dderbyn e gartre a'i ddodi e i fynd yn y bore.

Gweithio yn **INA Needle and Bearings** yn cynhyrchu *bearings* i bob math o bethe a'i gwaith hi oedd **inspecto'r rheini** cyn eu bod nhw'n cael mynd mas o'r ffatri. **Yn Bynea.** ... ond **yn yr assembly on i.** Mae'r ffatri hon yn yr un safle heddiw. Cred bod tua 200 yn gweithio yno pan ddechreuodd hi. '**Odd rhai merched yn gwitho lawr ar y press ond ar yr assembly on i. On ni'n lot fach ar yr assembly. Ond peder inspector on ni ar yr inspection, chwel.**' Yna fe ddechreuon nhw gyflogi rhagor a gwitho shiffts. '**Bues i ddim yn gwitho shifts – dim ond dydd.**'

Mae'n cofio'i diwrnod cyntaf yn y gwaith '**Anghofia i byth mono fe ... achos bo chi'n mynd miwn i le dierth, nagefe, a ddim yn nabod neb, lletwhith iawn odd e. On i'n timlo fel mynd gatre a gweud y gwir. Ond odd rhai merched neis 'na a on nhw'n dodi chi'n gartrefol, a ddetho i i nabod nhw a ddetho i'n ffrindie â nhw i gyd. Ddetho i i enjoio 'na wedyn ond ar y cynta on i ddim yn lico.**'

## 8.16

Roedd y merched yn dod o bob man i'r ffatri – hi o Lwynhendy, eraill o Felinfoel, Dafen, Loughor.... Dod ar fysys *service* – gan eu bod yn rhedeg yn well nag y maen nhw heddi. Ac yna, cael lifft i'r gwaith. Bysys yn mynd lan i Loughor, troi rownd a dod nôl i Lanelli.

Pan ddechreuodd hi yno roedd pob un yn cael gwisgo’u *overalls* eu hunen ond cyn iddi gwpla roedd hyn wedi newid roedd y cwmni yn syleio *overalls* i chi. Dim byd ar eu pennau, dim menyg a dim sgidie arbennig.

Oriau gwaith – wyt y bore tan hanner awr wedi pedwar. Mynd am wyt a chael cwarter awr (neu hanner awr??) i frecwast, amser cinio wedyn – ‘**hanner awr, fi’n credu ... ond odd yr amser yn mynd yn gloi, cofiwr chi. Pan chi’n fishi, ma’r amser yn mynd yn gloi.**’ Mynd yn syth mewn i inspecto.

Pan ddechreuodd hi ‘**menyw odd droston ni. Anghofia i byth moni, Mrs Lewis, a odd hi weddol o oedran – mynd mlân ... a fi’n siwr taw un o Dafen odd hi. A odd hi itha neis, a odd hi’n dodi chi ar y ffordd – beth odd neud. Wrth gwrs och chi’n dod yn gyfarwydd wedyn a odd hi’n watsho beth och chi’n neud, chwel.**’

Daeth hi i weithio i INA Bearingss trwy Marian a oedd yn gweithio yn yr offis yno. Gwelodd hi un diwrnod a gofynnodd iddi ‘**Gwranda Marian’ wedes i fel’na, ‘os chance am jobyn yn INA Needles?’ ‘Pam Beryl, ma fe’n moyn job’ medde hi.**’ Trwyddi hi y cafodd y job. A chafodd *interview*. Doedd dim rhaid iddi ddangos bod ganddi sgiliau arbennig yn y cyfweliad ‘**a weda i wrthoch chi – odd hi’n ffurm neis i witho iddi.**’ Nid yw’n gallu enwi y perchnogion – ond mae’r enw ar un llun (sef Schaeffler) ‘**Schaeffler odd enw’r manager ond fi’n credu taw German firm odd hi.**’ Mae ffatri Ina Needles ble roedd y gwaith tun arfer bod yn Bynea, ac roedd y *rest* (sef Thyssen’s ...) lle roedd y gwaith *steel*.

O safbwyt ei gwaith hi’n inspecto – roedd y merched eraill yn llanw’r bocsys yn yr *assembly*, ac roedd pethau o’r *press* yn dod lan atynt hefyd. Roedd pedair ohonynt wrthi ac ar ôl gwybod y job roedd yn dod yn rhwydd. Ar ôl i Mrs Lewis gwpla daeth dyn yn fforman arnynt. – George rodden nhw’n ei alw (dim gwybod ei *surname*). Teitl ‘**Nage inspector – ar yr inspection.**’ Menywod ar yr *assembly* ond dynion a menywod lawr ar y *press*.

Ddim yn credu bod pobol yn meddwl nad oedd gwaith ffatri ddim yn waith da, ‘**achos odd pob un jyst yr un peth, nag on nhw?**’

#### 14.45

##### *Och chi’n mwynhau’r gwaith?*

... *On i, enjoies i e ... och chi gyda cwmpni ... a och chi’n neud rhwbeth.*’ Pan oedd y gwaith yn slac roedd hi’n *boring*. ‘**Ond fynycha on nhw’n ffindo rhywbeth i chi neud**’. Os nad oedd un o’r *bearings* yn iawn, byddai’n dweud wrth y fforman a byddai e’n dodi’r rheini ar naill ochor. Roedd yn rhaid iddyn nhw fod i gyd yr un siâp, a dim bai arno. Os oedd bai arno cai ei daflu allan. ‘**Os odd lot o nhw – och chi’n meddwl bod rhywbeth yn bod ar y mashin odd yn neud nhw.**’ Wedyn byddai’n rhaid gwneud y rheini’n iawn. Gwnaeth yr un job tra bu yn y ffatri a bu’n gweithio yno am 16 mlynedd.

Nid yw’n cofio ei chyflog cyntaf. Ond roedd rhaid iddi hi fynd i weithio – i gael arian, roedd David yn yr ysgol. Dim ond 38 oed oedd hi pan fu farw ei gŵr, Donald ‘**dim ond pension i David on i’n câl, achos on i dan oedran. Och chi fod yn forty cyn bo chi’n gallu câl**

*pension.* Wel, wedi ‘ny on i’n câl *pension i David* – hanner pensiwn odd hwnnw.’ Wedyn roedd David yn *fifteen* a daeth e adre o’r ysgol un diwrnod a dweud wrthi ei fod wedi bod yn chwilio am job a bod ganddo gyfweliad yn Bachelors’, Llanelli lawr y dociau fel *trade-electrician*. Roedd hi’n dymuno na châi e’r job, ond fe’i cafodd. Er iddo fynd i’r gwaith y bore cyntaf ar ei ben ei hun, roedd dyn a’i fab o Ben-y-graig yno hefyd a byth wedyn cafodd lifft nôl a mlaen gyda’r dyn yma. ‘**Wel, wedi ‘ny, ar ôl iddo fe ddod mas o’i drêd (trade), odd y pension yn cwpla. ... so bues i am ddwy flynedd a ceso i ddim dime. A fi’n cofio Fanw** (mae ei llun yn un o’r llunie), ‘ma hi’n dod mlân ato fi ‘**Beryl**’ medde fe ‘**Ife’n câl pensiwn nawr?**’ ‘**Nagw**’ wedes i fel ‘**na**’. Roedd ei gwîr yn yr undeb yn Trostre, a thrwy Arthur y cafodd hi’r pensiwn nôl ‘**A hanner pension geso i wedi ‘ny, nes bo fi’n sixty.**’

Felly roedd yn RHAID iddi hi fynd i weithio (nid *pin money* oedd e iddi). Yna priododd David, yn 21 oed. Cyn gynted ag y dechreuodd hi’n ei gwaith cafodd dwlpyn ar ei brest – ‘**odd e seis wŷ**’, heb ddweud wrth neb ond ei chwaer yng nghyfraith. **Ond yn y gwaith un diwrnod aeth i weld y nyrs, a’i ddangos i’r nyrs**, ac anfonodd hi Beryl i weld y doctor. Aeth hi i’w weld ‘acha dydd Gwener’, ysgrifennodd e lythyr ar unwaith i’r ysbyty (yr hen un), cafodd lythyr ar y dydd Llun i fynd i weld Dr John Davies ar y dydd Mawrth – cafodd driniaeth ar unwaith i dynnu’r *fluid*. Mae wedi bod yn iawn oddi ar hynny. Trwy hyn roedd David yn caru a gofynnodd am ganiatâd i briodi a chan ei bod hi’n meddwl bod y twlpyn ganddi rhoddodd ganiatâd iddo. Cafodd e ddwy ferch a maen nhw’n hapus.

## 21.05

Roedd y nyrs yn y gwaith yn gallu helpu os oedd cwt gyda rywun neu os odd rhywun yn dost. Chafwyd dim *accident* trwm yn y gwaith, ond roedd rhai’n cael cytiau yna. Falle byddai un o’r *bearings* yn siarp, a gallai eich bys fynd i mewn i fashîn. Y cwmni oedd yn talu am y nyrs.

Byddai rheolwr y gwaith yn cerdded rownd weithiau ond fydden nhw fel gweithwyr ddim yn siarad â nhw. Rheolau: ‘**Nag on nhw’n smoco yn y gwaith. Bryd hynny os on nhw’n smoco on nhw’n câl sbel falle, ... ond dim yn y gwaith.**’ Yn cael smoco yn y *toilets* neu yn y lobi lle roedd dillad yn cael eu cadw. Pan oedd hi’n gweithio yno doedd dim llawer yna ond roedd hi’n neis. Bellach mae wedi ymestyn llawer. Dim bwyta wrth y gwaith, - gallai fynd ar y *bearings*. Tua hanner awr wedi naw yn cael toriad i gael brecwast - dishgled o de neu goff i a snac o’r cantîn. Cael cinio yn y cantîn hefyd – fyddai gweithwyr y *press* ddim yn mynd i gael brecwast yr un amser â nhw, ond amser cinio roedd popeth yn cwpla. Fynychaf byddai hi yn mynd â’i bwyd ei hunan.

Roedd menywod priod (dyna oedd yna fwyaf) a menywod sengl yn gweithio yno. Rhai o’r menywod â phlant – byddai David wedi cyrraedd adre o’i blaen hi, a byddai wedi ymolch a newid cyn iddi gyrraedd. Wedyn byddai hi’n gwneud bwyd i’r ddau ohonyn nhw.

Doedd ei gwaith hi ddim yn frwnt o gwbwl. Roedd *toilets* gan y menywod a’r dynion ar wahan ac roeddynt yn lân. Cred bod rhai o’r menywod yn prifocio’r dynion a’r dynion yn

tynnu coes y menywod – ‘**On nhw’n lico craco jôcs, yn enwedig un o Ben-clawdd.**’ Dim tynnu coes merch newydd – yn hytrach rodden nhw’n dda wrthyn nhw. ‘**Se un o’r offices yn dod lawr i’r assembly, chmbod, on ni’n tynnu côs wedi ‘ny.**’

*On nhw’n gweld rhai’r offices yn wahanol on nhw?*

**O, on. On nhw tamed bach yn uwch na ni a wedyn on nhw’n watcho rheini chwel.**’ Roedd lot fach yn gweithio yn y swyddfeydd hefyd ond nid yw’n gwybod faint.

## 26. 37

Doedd neb yn man-ladrata o’r ffatri – ‘**doedd dim ‘na i chi pilffran.**’

Roedd loris yn dod i nôl y *bearings* a mynd â nhw i ffatrioedd eraill. Roedden nhw’n eu pacio nhw yn y *packing department*. Odd dwy fenyw a dau ddyn yn y *packing*.

O safbwynt y cyflog – roedd e wedi mynd lan yn ystod ei chyfnod yno. Roedd y cyflog yn mynd lan bob blwyddyn. Roedd hi’n ei ystyried yn gyflog da iddi hi. Cael ei thalu bob dydd Gwener, mewn arian parod. O’r tal byddai’n talu’r undeb. Roedd yn perthyn i undeb ond ddim yn gwybod i ba un. ‘**Ma undeb yn bwysig yn y gwaith. Gwedwch chi bod rhyw ffra(e) – ma’r undeb yn gallu wmladd drosto chi, nag yn nhw?**’. Mae’n cofio streic yno – digwyddodd hynny pan gafodd Catherine (ei hwyres) ei geni ond nid yw’n cofio am beth roedd y streic. Tua 1972 felly. Roedd hi tu allan y ffatri a gwelodd ei mab, David, yn mynd heibio ar y motor-beic ar ei ffordd i’r ysbyty. Y ffactri i gyd ar streic – pawb yn yr un undeb ‘**neu os nag on nhw – on nhw’n gorffod dod mas, achos on nhw’n ffaelu gwitho, chwel.**’ Ansicr pam streicio – falle er mwyn cael rhagor o gyflog. Methu gweld beth arall allai e fod. Dim problem gyda’r amodau gwaith – yn neis o ran gwres. Roedd hi’n swnllyd lawr y *press* ‘**ond le on ni, odd mashîns ‘na ond nag odd lot o stŵr ar rheini, wath nag on i ar eu pwys nhw,**’ Roedd hi’n ystafell fawr ac roedd hi’n y pen arall. Roedd rhyw 6 mashîn yn yr un ystafell â hi. Roedd dyn yno hefyd i reparo’r mashîns ac i helpu’r merched a fforman drostyn nhw hefyd.

Ansicr a oedd ei gwaith hi yn *skilled, unskilled* neu *semi-skilled*. ‘**Odd rhaid i chi wbod eich job neu byddech chi’n ffaelu neud e.**’

Roedd ei chyflog hi – iddi gael byw arno. Fu hi ddim yn swyddog undeb – roedd rhai yn y gwaith ond wnaeth hi mo’r gwaith hwn. Dim cof o unrhyw un yn cael anaf yn y gwaith. Dim cofio merched yn mynd at y nyrs achos *periods*.

## 33.30

Dim cerddoriaeth pan oedden nhw’n gweithio. Dim canu ychwaith ‘**Clywech chi ddim ohono fe. Odd ambell un yn clebran â’i gilydd ond odd ddim miwsig – clywech chi ddim miwsig achos y mashins. ... Se neb ambyti och chi yn siarad. Ond os och chi’n gweld rhywun och chi’n ffaelu siarad.**’ Doedden nhw ddim yn hoffi i’r staff siarad, ond bydden nhw yn gwneud.

Dim effaith tymor hir ar ei hiechyd. Gweithio o ddydd Llun nes dydd Gwener; dydd Sadwrn a dydd Sul bant – i bawb ‘**ond amser on nhw'n moyn i chi witho mlân.**’ Bu hi'n ‘gwitho mlan’ ond pan aeth ei mam yn dost roedd hi'n ffaelu gwneud hynny. Gofyn iddi weithio ymlaen am eu bod wedi cael mwy o *orders*. Roedd mwy o dâl am hyn. Dechreuon nhw weithio shifftiau mewn sbel fach ar ôl iddi ddechrau gweithio yno. Shifftiau bore a phrynhawn i fenywod, un o chwech tan ddu a'r llall o ddu tan ddeg. Doedd y merched ddim yn gweithio nos – na'r dynion chwaith doedd hi ddim yn credu. Chafodd y pedair ohonyn nhw oedd yn inspecto ddim eu dodi ar shifft o gwbl. On nhw'n gorffod inspecto gwaith y ddwy shifft wedyn. Gorffennodd hi yno yn 1982 a dyw hi ddim yn gallu cofio lot ohono fe nawr.

Cloco miwn a cloco mas. Os och chi'n hwyr, ron nhw'n cropo chi. ‘**Gwedwch chi nawr bo chi'n hwyr yn mynd i'r gwaith och chi'n cloco miwn, wel och chi'n câl 'ch talu wrth pryd och chi'n bechingalw, gwedwch chi bod cwater awr wedi mynd, bydden nhw'n cropo wedi 'ny hanner awr wedi 'ny ... o'r cyflog.**’ Doedd hi ddim yn credu y byddai rhai'n cloco mewn dros rywun arall – wnaeth hi mo hynny ‘**bydde gormod o ofon arna i ... wath wi'n credu on nhw'n watcho gormod**’.

Roedd yn rhaid iddi gofnodi faint o waith roedd hi'n ei wneud y dydd – faint och chi wedi inspecto. Roedden nhw'n rhoi nifer penodol i chi a disgwyl i chi eu gwneud. ‘**Och chi'n neud 'ch gore i gwpl a nhw. Odd ??? itha bishi cofiwch.**’ Ddim yn gyfarwydd â'r term *time and motion*. ‘**Och chi'n gorffod neud 'ch whac. ... Smo i'n credu llwyddes i ddim siwrne. On i'n pitsho miwn ta fel ma hi.**’

### 38.10

Cred bod y gwaith yn cwpla adeg y gwylie. Cael dau neu dri diwrnod adeg y Pasg, a gwyliau banc ym mis Awst – cael pythefnos bant. Weithiau ai ar wyliau i ffwrdd bryd arall yn aros gartre yn carco ei mam a fu'n wael am flynydde. “**“Gei di ddigon o holides ‘to, ar ôl i fi fynd o ‘ma” ‘na beth on i’n gâl.**” Bydde merched y ffatri yn mynd bant gyda'i gilydd ar ambell diwrnod ond doedden nhw ddim yn mynd ar wyliau gyda'i gilydd. Roedd y gwaith ei hunan yn trefnu cinio a dawns allan – yn aml byddent yn mynd i Goodwick (?) lawr yn Pwll (Llanelli) (aeth y Goodwick ar dîn). Bydde'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn dod i hwn. Y bosys oedd yn trefnu hwn – cyn Nadolig.

Roedd y plant yn cael parti Nadolig – cael ei gynnal gan amlaf yn y neuadd yn Casllwchwr (Loughor). Y tro cyntaf aeth hi iddo – mynd â'i nith, Meinir, wnaeth hi – yn saith oed, yna roedd ganddi ddwy wyres – Catherine a Sarah i fynd i'r parti. Ansicr pwy oedd yn gwneud y bwyd, ond ‘**odd gwledd ‘na iddyn nhw.**’ Mae'n gwybod nad oedd hi ei hunan yn gwneud y bwyd. Roedd y plant yn cael presantau lyfli. Roedd ei hwyres Catherine yn un brysur iawn! Yr offis oedd yn rhoi presantau i'r plant. Dim present na bonws i'r gweithwyr adeg y Nadolig. **Ond cafodd gloc i ddynodi ei bod wedi bod yno 15 years (gweler ffotograff).** A **chafodd watch ganddyn nhw – Swiss – ansicr pam – efallai ar ôl cyfnod o 10 mlynedd?** Cynnal parti i roi'r gwobrwyon hyn ond ddim yn cofio ble bu hi – y *Manager* oedd yn eu cyflwyno ond nid yw'n gallu cofio enwau dim un o'r *Managers* fu yno yn ei chyfnod hi.

Cyfeiria at yr un yn y llun ohoni hi a Jim Griffiths AS. ‘**Odd sawl un bach neis ‘na, - rhai foreign on nhw ‘chwel.**’

Roedd y gwaith wedi dechrau yn Bynea ym mis Ionawr (1966) a dechreuodd hi yno ym mis Ebrill. Daeth i'r safle yn Bynea o Dafen. A phan oedd ei gŵr, Donald yn gweithio yn Fishers, ‘**Odd e'n dod gatre a medde fe wrtho i, “ Gwranda Beryl” medde fe, “Licen i ddim gweld ti yn mynd i un ffactri i witho” medde fe wrtho i, achos odd e'n gwitho yn Fishers a odd menywod yn gwitho ‘na a odd e ddim yn lico fe. Odd e ddim yn lico menywod yn gwitho mewn ffactri. .. (ddim yn gwybod pam) Nag odd e'n lico gwitho ‘da menywod.**’ Yn INA Bearings roedd y dynion ar wahan a doedden nhw ddim yn gweithio gyda'r menywod. Roedden nhw yn y *tool room*, a lawr y *press*, ac roedd rhai merched lawr fan hyn gyda nhw.

Amser cinio roedd bechgyn yn mynd mas i chwarae rygbi o'r ffatri. Mae'n cofio **Derek Quinnell** yn *youngster* yn gweithio yno. ‘**Ar ôl cino odd e'n dod mewn a odd e'n ddu-goch! Wedes i sawl gwaith wrtho fe “If your mother was to see you now, she wouldn't be willing” ... a shgwlwch fel ma fe wedi dod mlân. Seventeen odd e bryd hynny.**’ Dim byd arall yna – dim tîmau na chôr na jazz band .... Roedd y bobol ifanc yn gallu mynd eu ffordd gyda'r nos ond byddai hi'n mynd adre bob amser. Roedd iaith ambell un o'r menywod yn frwnt ambell waith ond doedd hi ddim yn gwneud sylw ohonyn nhw. Eu gadael i fod.

#### 47.00

Roedd ganddi gyfnither yn y gwaith a ddaeth yno ar ei hôl hi, ond yn y *needle factory* roedd hi'n gweithio – y nodwyddau oedd yn mynd i mewn i'r *bearings*.

Y fforman oedd wedi dysgu'r gwaith iddi hi ar y dechrau – roedd e gyda hi drwy'r dydd a bob dydd. Roeddech yn dysgu wrth fynd yn eich blaen. Fu hi ddim yn dysgu unrhyw un arall wedyn. ‘**Dw i ddim yn credu dath unrhyw un newydd mewn – dim ond ni'n peder fuws yna tra on i ‘na’.**’ Mae dwy o'r rhain bellach wedi marw.

Mae'n dweud stori am âr un o'r merched – Susan oedd yn byw yn Gorseinon neu Loughor, yn gyrru hers i'w mofyn o'r gwaith! Hanes y ddau yma.

I fynd i angladd neu achlysur arall o'r fath, byddai'n gofyn am amser bant ond yn colli pae am hynny. Dim syniad faint oedd ei phae hi yno o gwbwl. Cael eich talu dros y gwyliau a'r gwyliau banc. Cael amser bant Nadolig, Pasg a Sulgwyn. Cred ei bod yn gweithio ar ddydd Gwener y Groglith, felly dim ond dydd Llun y Pasg – un diwrnod oedd i ffwrdd bryd hynny.

Mynd i'r gwaith yn y bore – cerdded lawr o Benygraig i Bynea i ddal bws i'r gwaith, a bws nôl. Ond fel y daeth i nabod y bobol, cael lifft, gan ddyn oedd byw tua Rhydaman a oedd yn gweithio yn y *tool room*. Wedyn lifft gan ddyn o Felinfoel. Symudodd hi nol o Benygraig (Bynea) i Felinfoel – chysgodd hi ddim ym Mhenygraig am saith mlynedd – dod adre i helpu, gan fod ei brawd ieuenga oedd yn sengl yn byw yno ac yntau ddim yn iach ac yn gweithio yn Fishers. Hi'n dodi Malcolm i fynd i'r gwaith ar shifft bore a'i ddisgwyl e adre o shifft nos. Roedd ei mam yn cysgu yn y parlwr ac roedd yn rhaid iddi ei chodi hi a chynnau Tân agored

iddi cyn mynd i'r gwaith erbyn wyth y bore ei hun. Stori hir wedyn am ei mam yn altro'r tŷ ar ôl i Beryl orffen gweithio ... ac am y tân a Malcolm yn torri ei goes!

## 56.20

Sôn sut y mae wedi gorfod gofalu ar hyd ei hoes. Pan oedd hi'n y gwaith roedd yn dod adre i waith tŷ, '**Smo i'n gwbot ffordd fi 'di neud e a gweud yn iawn. ... Wi wedi câl hi'n galed.**'

*Allech chi weud bo chi wedi mwynhau gwitho yn y ffatri?*

**On i, enjoies i tra on i yna.**

*Pam benderfynoch chi bennu wedyn?*

**Achos bo Mam yn dost, achos on i'n colli lot o waith i edrych ar 'i hôl hi.'**

Dyw hi ddim wedi cadw llawer o gysylltiad gyda'r menywod yn y gwaith ar ôl iddi gwpla. Mae'n cael cardie Nadolig gan ambell un ond dyw hi ddim yn eu gweld nhw. Ar ôl gadael bu gartre yn gofalu am ei mam a Malcolm. Bu farw Malcolm Ebrill diwethaf.

*Argraffiadau o'r ffatri wrth edrych yn ôl?*

**'Enjoies i yna tra on i 'na. A'r cwmni oedd yna – enjoies i bob un ohonyn nhw.'**

---

### Mynd dros y ffotograffau:

1. Llun o Jim Griffiths AS a'r *Manager* a Beryl, - a'r *bearings* bach o'i blaen. *Opening Day* y gwaith, Mehefin 1966.
2. Parti'r gwaith. Rhai o'r offis, y *Managers*, nrys a gweithwyr y cantîn yn y llinell ganol, mas yn y ffatri roedd y rhai blaen yn gweithio – bechgyn ifanc yn eu plith, yn y cefn – y fforman, *pay man*, *Manager* ac eraill. Dinner dance. – gallai fod yn y Stradey Park c. 1970au
3. Tystysgrif – deng mlyndd a heb golli lot o waith.
4. Parti Nadolig i'r plant – hi ar y dde. Neuadd Loughor. c. 1977.
5. Trip i Blackpool – hi yw'r bedwaredd o'r dde. Nhw yn trefnu hwn eu hunain.
6. Merched mewn cinio – ddim yn gwybod ble. Hi ar y chwith. Cymysgedd o weithwyr, dwy yn *needles*, gweddill ar y mashin a hi yn inspecto.
7. Gweithwyr yn eu *overalls*, tu allan i'r ffatri. Fflag ganddynt. Ansicr pryd – tua 1970au.
8. Eto tu allan i'r gwaith yn eistedd lawr – enwi'r merched: Minwel, Iris, hi Annette, Madge a merch oedd yn byw yn Glasfryn – pawb yn eu minis yn dangos eu coese. Eto c. 1970au.

## *English summary*

### **INA Needle and Bearings, Bynea, Llanelli (1966-1982)**

**Interviewee:** **VSW025 Mrs Beryl Evans**

**Date:** **6: 02: 2014**

**Interviewer:** **Catrin Stevens on behalf of Women's Archive of Wales**

Beryl Evans's maiden name was Beryl Thomas and she was born on 21 March, 1927 in Llanelli. When she was two years old the family moved to the house where she now lives in Felinfoel. Her youngest brother was born in her grandmother's house two doors away. Before her mother got married, she worked in the brewery in Felinfoel where her father was a saddler. '**Years ago there were no lorries, it was just horses and carts.**' Beryl's father was a collier in Tumble Colliery. She had two brothers – Malcolm who went to work in the steel works in Dafen, and Harry (the youngest) who trained to be a carpenter with Bonville Thomas.

She attended school down at the end of the garden – a school that has since been demolished. After primary school she went on to attend a mixed secondary school in Stradey. She left when she was fourteen and went to work in the brewery. She began work in the bottling stores, using machines to fill bottles and put labels onto them. After working in this section she went on to work in the section where the pop was made. She enjoyed it there.

She left school feeling that she had no other option but doesn't have any regrets about leaving when she did. Her first pay packet contained seven and six, and by the time she left this had increased to fifteen shillings.

The brewery was just a few doors from where Beryl lived. She started work there circa 1941 and left circa 1948 (when she was twenty one) so she was working there during the Second World War. She didn't have to work in a munitions factory as she thinks she was too young. She got married in 1948 (or 1949) and moved to Llwynhendy. Her husband, Donald, was working in Bynea steel works but left to work in Fisher and Ludlow, making cars and was there for three years before he lost his life in a fishing accident.

### **5.00**

She didn't carry on working after getting married. She said, '**I thought, as soon as a woman gets married, her husband keeps her. And that's how it was years ago – women didn't go to work – they stayed at home.**' She had one son and she stayed at home to look after him.

**Her husband, Donald, drowned in a fishing accident in the river Loughor in June 1965. She started in the factory in Bynea in April 1966.** Her son was fourteen years old at the time. **She didn't want to go out to work but felt she had to. 'I preferred to stay at home, because that's what I was used to.'**

**INA Needle and Bearings** produced all types of bearings and her work was inspecting them before they left the factory. There were about two hundred people working there when she started. '**Some girls worked down on the press but I was on the assembly. There were quite a lot of us working on the assembly.**' Beryl and three others worked on the inspection. Beryl didn't work shifts, although different shifts with more inspectors were introduced later on.

She remembers her first day in work. She didn't know anybody there and felt very awkward. "**I felt like going home to be honest. There were some nice girls there and they made me feel at home, and I got to know them, and we became friends. I started enjoying there then but at first I didn't like it.**"

#### **8.16**

The women in the factory came from Llwynhendy, Felinfoel, Dafen, Loughor. They travelled by service bus to work, and later on some started getting a lift to work.

When she first started at INA Bearingss everybody wore their own overall but by the time she had finished there the company had started supplying them to the workers. They didn't wear anything on their heads, gloves or special shoes.

The working day was from eight o'clock to half past four. When she started there an older woman called Mrs Lewis showed her the ropes. Beryl got the job in INA Bearingss through her friend, Marian, who worked in the office but still had to have an interview before starting the job. The company was German and one of the managers was called Schaeffler.

Beryl describes her work as an inspector - the other girls filled the boxes in the assembly, and they would be sent material from the press as well. There were four of them and after learning the job it was easy. After Mrs Lewis left, they had a male foreman called George. Women worked in the assembly but both men and women worked in the press.

She doesn't think that people thought of factory work as a negative thing because everybody was on the same level (although she does say later on that her late husband disapproved of women working in factories).

#### **14.45**

Beryl enjoyed the work. '**I enjoyed it ... you had company ... and you were doing something.**' It was boring when work was slack. If bearings were faulty she would tell the foreman and he would put them to one side, and they would be thrown out. If a large number of them were found to be faulty they would have to investigate whether there was a problem

with the machine. Beryl did the same job for the duration of the sixteen years that she was there. She doesn't remember how much she was paid.

Beryl felt she had to go out to work. She would have received a full 'pension' when her husband died if she had been over forty years old, but she was only thirty eight. When her son, David, was fifteen, he came home from school and told her he had an interview in 'Bachelors', Llanelli as an electrician. She was hoping he wouldn't get the job. Beryl describes how the union in Trostre, where her husband had worked, enabled her to receive half a 'pension' until she was sixty.

David got married when he was twenty one years old.

As soon as she'd started in work she found a large lump in her breast and went to see the nurse in the factory. The nurse sent her to see the doctor who drained the fluid and she hasn't had any problems since.

## 21.05

The nurse at work could treat workers for cuts or they would go to her if they were feeling unwell. There were no serious accidents at the factory. Sometimes one of the bearings would be sharp and cut your finger, and care had to be taken that fingers didn't go into the machine.

The managers would walk around but didn't speak with the workers. Smoking wasn't permitted on the factory floor, but people could smoke in the toilets or in the lobby where clothes were kept. Eating on the factory floor wasn't allowed either because food might get onto the bearings. They would have a break at half past nine for breakfast – tea or coffee and a snack from the canteen – although the press workers wouldn't have breakfast the same time as them. Everybody would have lunch at the same time. Beryl would usually take her own food to work.

The majority of the women were married. David would have arrived home before her, and would have washed and changed before she got home.

The work she did wasn't dirty. There were separate toilets for the men and women, and these were clean. Some of the women would tease the men but they didn't tease new girls. Instead, they looked after them. If somebody came down from the offices they would get teased. People who worked in the offices were considered to be higher up than workers on the factory floor.

## 26. 37

Lorries would come to collect the bearings and take them to other factories. There were two women working in the packing department.

The wages were good and went up every year. They were paid on a Friday in cash. She was a member of a union but can't remember which one. "**Having a union in work was very**

**important. If there is a disagreement – the union can fight on your behalf.”** She remembers a strike at the factory circa 1972 but can’t remember the reason for it (probably about pay). Everybody came out on strike including those workers not in the union because they wouldn’t have been able to work anyway. The conditions in the factory were good and the machines where she worked weren’t too noisy.

### **33.30**

Music wasn’t played in the factory, and the workers didn’t sing as they worked either. It was too noisy to hear the radio anyway because of the machines. Chatting to each other was frowned upon, although they did do this when they had the opportunity.

Beryl hasn’t suffered any health problems as a result of working at the factory. Her working week was from a Monday to Friday, with weekends off. She would be asked to work overtime when there was a rush on to get an order completed, although she couldn’t work on after her mother had become ill. Payments for over-time were at a higher rate. A shift system was introduced a short while after she started working there which meant that the women worked day and afternoon shifts (from six in the morning until two o’clock, and from two o’clock in the afternoon until ten.) Beryl finished work in 1982.

Workers had to clock in and out and would have their wages docked if they were late. Nobody would clock in on anybody else’s behalf to avoid them being docked, as they were too scared of being caught.

She had to keep a note of how much inspection work she completed in a day. She was given targets but doesn’t think she succeeded once in achieving them.

### **38.10**

During holiday time Beryl would usually look after her mother who suffered from ill health. Her mother said, “**You’ll have plenty of opportunity to go on holiday after I’ve gone.”**

Girls from the factory would go on trips together but didn’t go away on holiday together. The workers would arrange a dinner dance just before Christmas in places like the Goodwick in Pwll (Llanelli).

A party was organized for the children and usually held in Loughor Hall. The first time she went, she took her seven year old niece but later on would take her two granddaughters. Food was laid on and the children were given a lovely present.

Beryl received a watch after ten years service and a clock for fifteen years service (see photograph). Parties would be held to present these awards, when the managers would present them.

The factory in Bynea began in January 1966, and Beryl started there in April 1966. Her husband didn’t want her to go and work in a factory. He worked in Fishers. There were women working there and he didn’t like this. In INA Bearing the men didn’t work with the

women. The men were in the tool room and down in the press, although there were a few women working down there with them.

During lunch times the lads would go outside and play rugby. She remembers Derek Quinnell working there as a seventeen year old youngster.

#### **47.00**

Beryl's cousin got a job there after she had started there but she worked in the needle factory.

The foreman showed Beryl how to do her job at the beginning. She wasn't involved in teaching anybody else how to do their work.

She tells a story about a woman called Susan from Gorseinon or Loughor who's husband drove a hearse to fetch her from work.

If she needed time off for personal reasons, such as attending a funeral, she would lose pay. She was paid for holidays and bank holidays (Christmas, Easter and Whitsun.) She thinks she worked on a Good Friday but had Easter Monday off.

Beryl caught the bus from Penygraig to Bynea to work but she started getting a lift from a man from Ammanford who worked in the tool room, and later on a man from Felinfoel. She moved back to live in Felinfoel in order to help her brother. He worked in Fishers and was suffering ill health so she would help him in the mornings and when he returned from work. Her mother slept in the parlour and Beryl had to help her get up and light a fire for her before going to work by eight.

#### **56.20**

Beryl enjoyed working at the factory but left because her mother was ill and she needed to look after her.

She hasn't kept in touch much with women from the factory apart from the odd Christmas card.

---

#### **Beryl's photographs:**

1. Jim Griffiths MP, the Manager and Beryl on the official opening day of the factory in June 1966.
2. A work's party in Stradey Park in the 1970s. Office workers, managers, the nurse and canteen workers in the middle row. The workers from the factory floor in the front row including young boys and the foreman.
3. Certificate for ten years service and good attendance.
4. Children's Christmas, Loughor Hall c. 1977. (Beryl on the right.)

5. Trip to Blackpool – Beryl fourth on the right.
6. The girls on a night out.
7. Workers outside the factory in their overalls, holding a Union Jack in the 1970s.
8. Outside the factory in the 1970s – the girls in their mini skirts: Minwel, Iris, Beryl, Annette, Madge and a girl from Glasfryn.